WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2020

Annwyl Mr Gruffydd

Ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

Yn dilyn ymateb yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor ynghylch ei Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft, ysgrifennaf i dynnu eich sylw at fater ychwanegol sy'n ymwneud â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, fel y nodir isod. Gan mai mater technegol braidd yw hwn ynglŷn ag eglurder darpariaethau sy'n ymwneud â thalu treuliau teithio a chynhaliaeth yr Archwilydd Cyffredinol, efallai ei bod yn well ei godi ar wahân.

1. Mae adran 7 o Ddeddf 2013 yn darparu ar gyfer talu "cyflog, lwfansau, arian rhodd, trefniadau ar gyfer pensiwn a buddion eraill", ac y caiff symiau o'r fath eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru a'u talu ohoni. Nid yw'r Ddeddf, fodd bynnag, yn nodi pwy ddylai weinyddu taliadau o'r fath. Gan nad oes gan Gronfa Gyfunol Cymru gyfleuster cyflogres, yn unol â'r arfer cyn Deddf 2013, mae Comisiwn y Cynulliad yn gweinyddu taliadau cyflog a chyfraniadau pensiwn yr Archwilydd Cyffredinol ond nid ei dreuliau teithio a chynhaliaeth. Nid ydym yn ystyried ei bod yn gwbl glir y byddai adran 7 yn ymdrin â thalu costau teithio a chynhaliaeth, er bod hynny'n ymddangos yn debygol.
2. Fodd bynnag, mae paragraff 13 o Atodlen 1 i'r Ddeddf, ynddo'i hun, yn nodi'n glir y dylai SAC dalu "lwfansau a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd ef neu hi fel aelod a phrif weithredwr SAC." Hyd y gallwn ddweud, nid oes darpariaeth yn y paragraff hwnnw, nac mewn perthynas ag ef, i godi ar Gronfa Gyfunol Cymru am daliadau o'r fath. Hyd yma, mae SAC, yn unol â hynny, wedi talu treuliau teithio a chynhaliaeth yr Archwilydd Cyffredinol heb godi tâl yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.
3. Mae cwestiwn yn awr wedi codi a yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol gwahanu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol rhwng y rhai a achosir yn rhinwedd

ei swydd fel aelod a phrif weithredwr SAC a'r rhai yr eir iddynt wrth ymgymryd â swyddogaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol. Ac os oes angen gwahaniad o'r fath, mae cwestiwn pellach yn codi a yw'r treuliau a achosir wrth ymgymryd â swyddogaethau eraill yr Archwilydd Cyffredinol (h.y. nid fel aelod a phrif weithredwr SAC) i gael eu talu o dan adran 7 y Ddeddf a'u codi ar Gronfa Gyfunol Cymru fel rhan o drefniadau cydnabyddiaeth a wneir gan y Cynulliad.

4. Yn ein barn ni, nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn glir. Rydym hefyd yn ystyried nad yw'n ymarferol nac yn gysyniadol gadarn i geisio gwahanu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol rhwng y rhai yr eir iddynt fel aelod a phrif weithredwr SAC, a'r rhai a achosir wrth gyflawni ei swyddogaethau eraill fel Archwilydd Cyffredinol. Y rheswm am hyn yw bod yr Archwilydd Cyffredinol yn aelod ac yn Brif Weithredwr y SAC yn rhinwedd y ffaith ei fod yn dal swydd yr Archwilydd Cyffredinol (adran 16 o Ddeddf 2013), a bod cysylltiad yr Archwilydd Cyffredinol â Swyddfa Archwilio Cymru yn rhan gynhenid o sicrhau'r adnoddau y mae arno eu hangen i gyflawni swyddogaethau archwilio. Felly mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni rolau aelod o Swyddfa Archwilio Cymru, prif weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol ar yr un pryd ac, i raddau helaeth, yn annatod, ac felly ni ellir gwahanu'r treuliau sy'n gysylltiedig â'r rolau hynny ond drwy raniad mympwyol.

5. Hyd yn oed pe bai yna fodd cysyniadol gadarn o wahanu'r treuliau, byddai gweithredu hynny'n ymarferol yn waith gweinyddol beichus heb unrhyw fudd. Ni fyddai yna gynnydd o ran tryloywder. Os unrhyw beth, byddai rhannu'r treuliau yn achosi dryswch ac felly'n lleihau tryloywder. (Fel sy'n ofynnol yn ôl Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi, datgelir y costau cyfanredol yn adroddiad blynyddol a chyfrifon SAC. Hefyd, mae SAC yn cyhoeddi manylion treuliau'r Archwilydd Cyffredinol ar sail chwarterol barhaus fel rhan o'i harweiniad i gynllun cyhoeddi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000).

6. O ystyried yr uchod, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a ddylid diwygio adran 7 a pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 er mwyn rhoi mwy o eglurder. Tybiwn nad yw hyn yn flaenoriaeth uchel, ar yr amod fod y Pwyllgor yn fodlon ar y dehongliad a'r dull a fabwysiedir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Byddwn yn hapus i drafod.

Yn gywir,

Martin Peters

Pennaeth Cyfraith a Moeseg